

Damien McCann  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent  
Swyddfeydd y Cyngor  
Canolfan Ddinesig  
Glynebwy  
Gwent  
NP23 6XB

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Damien McCann,

## **Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020**

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn, adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion, amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol mewn llawer o achosion o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
☎ 0872 437 7303  
✉ [CIW@gov.wales](mailto:CIW@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydweithredol a seiliedig ar gryfderau o hybu gwelliant.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd y gweithgarwch hwn yn cynnwys:

- cyfarfodydd adolygu perfformiad ac ymarfer a gynhaliwyd gyda phenaethiaid gwasanaethau oedolion a phlant.
- roedd gweithgarwch â phwyslais penodol ar fin cael ei gynnal ym maes gwasanaethau plant ac oedolion ar ddiwedd mis Mawrth a mis Ebrill 2020. Cafodd hyn ei ohirio o ganlyniad i'r ffaith bod holl waith yr awdurdodau lleol wedi cael ei ohirio yn sgil COVID-19.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â chi, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus a rannwyd â chi'n gyson.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

## **Llesiant**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi parhau i weithio yng nghyd-destun Deddf 2014 yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol ac arbedion cyllidebol er mwyn ad-drefnu ei wasanaethau.

Mae cynlluniau uchelgeisiol yr awdurdod lleol yn nodi ei ymrwymiad i wella llesiant ac annibyniaeth pobl. Mae cydnabyddiaeth glir bod angen dull gweithredu systemau cyfan, gan weithio mewn partneriaeth â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, cymunedau lleol, asiantaethau partner ac ar draws gwasanaethau plant ac oedolion, er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn cael budd o dîm sefydlog a phrofiadol o uwch-reolwyr a chefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol dda. Mae dealltwriaeth gyffredin o'r cyfeiriad a'r ysgogiad sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gwella canlyniadau pobl yn effeithiol.

Un o'r prif flaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol yw darparu gwybodaeth a chyngor mewn modd hygyrch er mwyn galluogi pobl i gefnogi eu llesiant eu hunain. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ddatblygu ei fodel Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth drws ffrynt. Mae hyn wedi helpu gyda'r newid diwylliannol ym maes gwasanaethau cymdeithasol a thu hwnt iddynt, gan gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a gwleidyddion hefyd o werth ymyrryd yn gynnar.

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i fuddsoddi mewn dysgu a datblygu ei staff rheoli gofal, gan ddarparu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a datblygu dulliau o gydweithio. Mae hyn yn ymgorffori diwylliant o ymarfer sy'n arwain at asesiadau o ansawdd da sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n adlewyrchu dewisiadau a dymuniadau'r bobl. Mae systemau sicrhau ansawdd cadarn yn sicrhau bod asesiadau'n

cael eu defnyddio'n gymesur ac mewn modd amserol i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau.

## **Pobl**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent weithlu sefydlog a medrus o hyd, ac mae'r rhan fwyaf o'r bobl wedi gweithio i'r awdurdod lleol ers nifer o flynyddoedd. Fel llawer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ei chael hi'n anodd recriwtio mewn rhai meysydd gofal cymdeithasol. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae'r awdurdod lleol wedi cysylltu ag awdurdodau lleol cyfagos. Un enghraifft yw defnyddio unigolyn ar secondiad o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i reoli'r cynllun Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth hyd nes y cafodd rheolwr parhaol ei recriwtio.

Mae'r awdurdod lleol yn mynd ati i geisio barn ei ddinasyddion, gan gynnwys teuluoedd ac oedolion sy'n agored i niwed, ac yn ei hystyried. Caiff gwasanaethau eu hadolygu hefyd mewn partneriaeth â staff ac asiantaethau partner er mwyn sicrhau bod gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y bobl leol yn cael eu datblygu.

Mae ymatebion oedolion i ymgynghoriadau o'r fath yn gadarnhaol. Mae ymatebion plant yn isel o hyd, gan olygu na chynhaliwyd arolwg eleni. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn faes i'w ddatblygu a bydd yn adolygu hynny yn unol ag adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf, er mwyn nodi'r ffordd orau o gynnwys y grŵp penodol hwn. Mae arferion da wedi'u nodi gyda'r gwaith a wnaed gyda'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol, a gafodd ei gomisiynu i gynnal arolygon gyda'r Tîm Ôl-14 a'r rhai sy'n gadael gofal. Cafodd y gwersi a ddysgwyd o'u profiadau o ofal eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau priodol. Mae'r argymhellion a roddwyd ar waith yn cynnwys datblygu sgiliau ar gyfer byw'n annibynnol, yn ogystal ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Gwelwyd canlyniadau cadarnhaol yn deillio o'r gwaith a wnaed gan yr awdurdod lleol i weithredu ei Strategaeth Lleihau'n Ddiogel Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n dangos lleihad cyson yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd lleihad yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, diolch i'r Strategaeth Ymyrryd yn Gynnar, drwy ddatblygu arferion modelu her a risg a'u rhoi ar waith bob dydd.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynyddu nifer ei ofalwyr maeth drwy weithio gydag awdurdodau lleol eraill ledled Gwent i rannu arferion a recriwtio. Yn dilyn adborth gan fabwysiadwyr, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio gyda Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru i wella ei wasanaeth i ddarparu fabwysiadwyr. Er bod nifer y ceisiadau mabwysiadu sy'n cael eu cymeradwyo wedi cynyddu, mae nifer y plant sy'n aros i gael eu mabwysiadu hefyd wedi cynyddu yn 2018-2019, yn ogystal â chymhlethdod anghenion plant sy'n cael eu lleoli i'w mabwysiadu. Mae nifer o fentrau ar waith i sicrhau profiad cadarnhaol i'r rheini sy'n awyddus i fabwysiadu a'r rhai sydd eisoes yn mabwysiadu. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod asesiadau'n cael eu cwblhau mewn modd amserol gwneud gwaith uniongyrchol cyn ac ar ôl y cam cymeradwyo gyda'r plentyn a'r mabwysiadwyr ar gyfer lleoliad

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau

Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cydnabod faint o her y mae'n ei hwynebu wrth fynd i'r afael nifer yr asesiadau o Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Comisiynwyd tîm Amddifadu o Ryddid gan bum Awdurdod Lleol Gwent a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, gan hybu arferion da mewn perthynas ag asesiadau galluedd, a chaiff asesiadau budd pennaf eu rhannu ar draws y rhanbarth. Mae aelod o staff o Flaenau Gwent wedi cael ei secondio i'r Tîm Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid am dridiau'r wythnos. Caiff y wybodaeth a'r profiadau a geir eu rhannu staff rheng flaen yn y Tîm Gofal Hirdymor pan fydd yr unigolyn yn dychwelyd i'w swydd barhaol.

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i roi Safonau'r Gymraeg ar waith, ac mae ymwybyddiaeth dda o'r rhain ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, a chaiff y Cynnig Rhagweithiol ei wneud i ddinasyddion.

## **Atal**

Mae atal yn rhan gynhenid o fusnes yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi nodi'r buddion hirdymor i unigolion a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn yr agenda atal. Mae cydweithio yn rhan gynhenid o'r agenda hon, ac mae tystiolaeth o waith partneriaeth mewnol ac allanol gydag asiantaethau yn hollbwysig o ran datblygu a darparu gwasanaethau.

Ymhlith yr enghreifftiau cadarnhaol o hyn mae gwasanaeth Fy Nhîm Cymorth, sydd wedi bod ar waith ers mis Mehefin 2019. Mae'r tîm newydd wedi llwyddo i gefnogi'r gwaith a gynlluniwyd i symud plant o ofal preswyl i leoliadau maeth drwy roi cymorth dwys i'r plentyn, y gofawyr maeth a'u rhwydweithiau cymorth.

Mae gan yr awdurdod lleol broses sicrhau ansawdd gadarn ar waith sy'n galluogi uwch-reolwyr i graffu ar berfformiad ar lefelau gwahanol er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r arferion sydd ar waith. Mae hyn yn hwyluso mwy o welliannau o ran arferion ac yn datblygu prosesau newydd a monitro cysondeb ar draws y timau. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn treialu proses sicrhau ansawdd a gwerthuso newydd sydd â'r nod o ysgogi gwelliannau o ran arferion ar draws yr awdurdod lleol.

Bydd y gwaith o ddatblygu fframwaith sicrhau ansawdd rhwng Bwrdd Diogelu Plant Deddwyrain Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Cyfan yn helpu i roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau gweithio rhyng-asiantaeth o ran diogelu plant ac oedolion.

Mae'r gwaith o uno'r tîm gofal cartref mewnol â'r gwasanaeth ailalluogi iechyd a'r gwaith o gyflwyno gwasanaeth gofal brys newydd @Home (DASH) yn rhoi cymorth i bobl yn y cartref er mwyn osgoi'r angen i fynd i'r ysbyty, hwyluso trefniadau rhyddhau o'r ysbyty yn amserol a darparu trefniadau pontio brys ar gyfer pecynnau gofal yn y cartref am hyd at 7 diwrnod. Mae'r ffaith bod gan yr awdurdod lleol amseroedd oedi wrth drosglwyddo gofal sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru yn dystiolaeth o lwyddiant y dull gweithredu hwn.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd

i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad. Ni chawsom ymateb ffurfiol gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, am fod y Pennaeth Plant yn rhan o Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Blant, roedd yn ymwybodol o'r argymhellion o'r adroddiad ac mae wedi gallu cyfrannu profiad Blaenau Gwent o adolygiadau diwedd lleoliad yn hyn o beth.

## **Partneriaethau**

Mae mwy a mwy o uwch-swyddogion yn gallu dangos sut mae'r cysylltiadau rhwng eu cyfrifoldebau cyfarwyddiaethol gwahanol yn cefnogi'r agenda gwasanaethau cymdeithasol ar draws yr awdurdod lleol. Mae dealltwriaeth ehangach o fuddiannau gwaith atal yn y gymuned a'r effaith negyddol bosibl ar bobl a chyllidebau pan fydd oedi wrth gynllunio gwasanaethau ac ymateb, neu pan fydd hynny'n aneffeithiol.

Mae aelodau'r cabinet yn darparu cefnogaeth wleidyddol, yn esbonio bwriad polisi ac arferion i wleidyddion eraill, ac yn arwain dadleuon ynghylch arferion rheng flaen lle y bo angen er mwyn sicrhau gwelliannau. Mae aelodau etholedig yn deall eu rôl o ran ymgymryd â gwaith craffu drwy gefnogi a herio uwch-arweinwyr gan ddangos ymrwymiad i staff a gwasanaethau rheng flaen.

Dywed Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fod ei gydberthynas â phartneriaid a byrddau yn "aeddffed", sy'n golygu eu bod yn seiliedig ar barch rhwng y naill a'r llall a diben cyffredin, gyda blaenoriaethau cyffredin ar draws y partneriaethau. Aethpwyd i'r afael â gwahaniaethau yn briodol, roedd cydberthnasau yn fuddiol ac ystyriwyd bod unrhyw her yn ddefnyddiol ac yn adeiladol. Mae pawb dan sylw yn deall yn glir yr effaith gadarnhaol y mae cydweithio yn ei chael ar ganlyniadau i oedolion a phlant.

Un o'r cryfderau clir ym maes gwasanaethau plant yw penodi swyddog ieuenctid a llety dros dro sydd wedi darparu cyswllt cyfathrebu gwerthfawr rhwng y Tîm Ôl-14 a'r Tîm Atebion Tai. Mae wedi bod yn gweithio gyda phobl ifanc 16 a 17 oed a phlant sy'n derbyn gofal er mwyn ystyried opsiynau tai pwrpasol.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod hwn yn gyfnod anodd i bobl ifanc ac mae wedi ymateb gyda nifer o ymyriadau cadarnhaol gan weithio ochr yn ochr â Tai yn Gyntaf er mwyn darparu llety dros dro a thai â chymorth i'r rheini sy'n gadael gofal. Yn ogystal â hyn, mae cwrs achrededig a drefnir gan Wasanaeth Addysg Shelter Cymru, sef "Housemate", yn hysbysu ac yn addysgu pobl ifanc i osgoi problemau tai a digartrefedd yn y dyfodol. Gwnaeth 15 o blant sy'n derbyn gofal rhwng 14 ac 16 oed ddilyn y cwrs hwn yn Institiwt Glynebwy. Cynhelir y cwrs bob blwyddyn er mwyn dechrau paratoi'r rheini sy'n gadael gofal i fyw'n annibynnol.

## **Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021**

Roedd ein rhaglen arolygu thematig a gynlluniwyd ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgarwch sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ar ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers  
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.  
Archwilio Cymru  
AGIC  
Estyn